

Camu i Fyd Archifau – Rhestr Wirio i Ymwelwyr

Cyn i chi gychwyn:

1. Ydych chi wedi cysylltu â'r archif i ddweud wrthynt yr hoffech alw heibio?

Cyngor: Wrth gysylltu ymlaen llaw, mi fydd yn rhoi amser i dimau'r archif nodi'r hyn rydych chi'n chwilio amdano a'i baratoi, fel bod popeth yn barod pan fyddwch chi'n cyrraedd.

2. Ydych chi'n gwybod beth yw oriau agor yr archif ac unrhyw wybodaeth arall sy'n

allweddol? Cyngor: Bydd gwasanaethau archif yn dangos amseroedd agor ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth arall sy'n allweddol, fel lleoliad, manau parcio a chanllawiau hygrychedd ar eu gwefannau. Ewch i archifau.cymru i weld y manylion cyswllt a'r dolenni i wefannau gwasanaethau archifau unigol ledled y wlad.

Yr hyn y gallwch chi ddod â nhw i mewn i ystafell ymchwil:

- ✓ Gliniaduron, llechi a theclynnau gwefru personol
- ✓ Ffonau symudol (diffodd y sŵn) a chamerâu llaw (diffodd y fflach)
- ✓ Pensiliau (heb rwberi), papur a llyfrau ysgrifennu i wneud nodiadau
- ✓ Casys pensiliau clir a ffolderi plastig clir yn cynnwys nodiadau yr ydych eisoes wedi eu gwneud
- ✓ Recordiadau sain
- ✓ Cymhorthion symudedd
- ✓ Mynediad at feddyginiaeth – Siaradwch ag aelod o staff am gyngor os oes angen

Ni ellir dod â'r canlynol i mewn i ystafell ymchwil:

- × Bagiau gliniadur, na bagiau yn gyffredinol
- × Dyfeisiau sy'n sganio lluniau
- × Treipodau neu ffyn hunluniau
- × Cotiau ac ymbarelau
- × Unrhyw eitemau miniog – siswrn, cyllell boced, teclynnau naddu pensiliau
- × Beiros, rwberi, teclyn naddu pensiliau neu bensiliau sydd â rwber
- × Bwyd a diod

Pwysig – Bydd llawer o wasanaethau yn gofyn am fath o ID pan fyddwch yn ymweld am y tro cyntaf, er mwyn eich cofrestru fel defnyddiwr. Efallai y bydd gan rai gwasanaethau archifau ganllawiau ychwanegol, felly siaradwch â'r gwasanaeth yr hoffech ymweld ag ef yn gyntaf os oes gennych unrhyw gwestiynau. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt y gwasanaethau ledled Cymru yn archifau.cymru.